# Adolygiad Dilynol o'r Trefniadau Diogelu Corfforaethol – Cyngor Sir Penfro

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2736A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran ymdrin â'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ond mae angen iddo barhau i gryfhau ei drefniadau goruchwylio a sicrwydd ar gyfer diogelu corfforaethol 4

Cynigion ar gyfer gwella 4

Adroddiad manwl

Asesiad o gynnydd y Cyngor o'i gymharu â'r cynigion ar gyfer gwella a gyhoeddwyd yn ein hadroddiad 'Adolygu Trefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu – Cyngor Sir Penfro' (Mai 2019) 6

# Adroddiad cryno

## Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran ymdrin â'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ond mae angen iddo barhau i gryfhau ei drefniadau goruchwylio a sicrwydd ar gyfer diogelu corfforaethol

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Ym mis Mai 2019, gwnaethom gyhoeddi adroddiad o'r enw Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol – Cyngor Sir Penfro. Roedd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys deg cynnig ar gyfer gwella.

2 Yn yr adolygiad hwn rydym wedi canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed gan y Cyngor o'i gymharu â'r cynigion ar gyfer gwella a gyhoeddwyd.

3 Gwnaethom gynnal yr adolygiad hwn rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021.

## Cynigion ar gyfer gwella

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

4 Ceir crynodeb o'n canfyddiadau yn **Arddangosyn 2**. Yn gyffredinol, canfuom fod y **Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran ymdrin â'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ond mae angen iddo barhau i gryfhau ei drefniadau goruchwylio a sicrwydd ar gyfer diogelu corfforaethol.** Rydym wedi cyhoeddi rhagor o gynigion ar gyfer gwella yn yr adroddiad hwn.

**Arddangosyn 1: Cyhoeddi rhagor o gynigion ar gyfer gwella**

Yn ogystal â'r deg cynnig ar gyfer gwella a wnaethom yn ein hadroddiad gwreiddiol (Mai 2019), y mae rhai yn dal heb gael sylw llawn y Cyngor eto (**gweler Arddangosyn 2**), mae'r tabl isod yn cynnwys pedwar cynnig arall ar gyfer gwella yr ydym wedi'u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

**Rhagor o gynigion ar gyfer gwella**

**Ymdrin yn llawn â'r holl gynigion a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer gwella**

C1 Mae angen i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chynigion 3, 4, 9 a 10 ar gyfer gwella a gyhoeddwyd yn ein hadroddiad ym mis Mai 2019 ar drefniadau ar gyfer diogelu corfforaethol.

**Polisi Diogelu Corfforaethol**

C2 Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun ei fod yn cydymffurfio â'i Bolisi Diogelu Corfforaethol ei hun.

**Recriwtio**

C3 Wrth recriwtio i bob swydd wag, dylai'r Cyngor gofnodi a chadw'n ffurfiol, ar y system gorfforaethol, yr asesiad risg a gynhelir wrth benderfynu a oes gofyn gwneud gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar gyfer rôl benodol (ac ar ba lefel).

C4 Wrth recriwtio gwirfoddolwyr, dylai'r Cyngor gofnodi a chadw, ar y system gorfforaethol yn ffurfiol, yr asesiad risg a gynhelir wrth benderfynu a oes gofyn gwneud gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar gyfer rôl benodol (ac ar ba lefel).

# Adroddiad manwl

## Asesiad o gynnydd y Cyngor o'i gymharu â'r cynigion ar gyfer gwella a gyhoeddwyd yn ein hadroddiad 'Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol – Cyngor Sir Penfro' (Mai 2019)

**Arddangosyn 2: cynigion ar gyfer gwella o'n hadroddiad ym mis Mai 2019, ein hasesiad o gynnydd y Cyngor o'i gymharu â nhw, a chamau pellach a nodwyd fel rhai sydd eu hangen**

| Cynigion ar gyfer gwella o adroddiad Archwilio Cymru Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol (Mai 2019) | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor o'i gymharu â'r cynigion (ym mis Medi 2021) | Cyfleoedd i'r Cyngor eu hystyried | Cyhoeddi rhagor o gynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **C1**<br>Mae angen i'r Cyngor egluro yn ei Bolisi Diogelu y trefniadau | **Bodlonwyd y cynnig ar gyfer gwella ond nodwyd materion ehangach**<br>• Mae'r Cyngor wedi egluro yn ei Bolisi Diogelu Corfforaethol (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018)[1] mai 'proses Ddemocrataidd y Cyngor o | | Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun ei fod yn cydymffurfio â'i Bolisi Diogelu Corfforaethol ei hun. |

[1] Ar ddechrau'r adolygiad hwn cawsom fersiwn gynharach o'r Polisi Diogelu Corfforaethol, a oedd yr un fath â'r fersiwn a oedd yn ei lle pan wnaethom ein gwaith gwreiddiol yn 2019. Rydym wedi nodi mater rheoli fersiynau oherwydd bod y fersiwn honno, a'r fersiwn ddiweddaraf o'r polisi, â'r un dyddiad cyhoeddi a'r un rhif fersiwn.

| Cynigion ar gyfer gwella o adroddiad Archwilio Cymru Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol (Mai 2019) | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor o'i gymharu â'r cynigion (ym mis Medi 2021) | Cyfleoedd i'r Cyngor eu hystyried | Cyhoeddi rhagor o gynigion ar gyfer gwella |
| --- | --- | --- | --- |
| craffu ar gyfer diogelu. | herio yw Craffu. Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael adroddiad blynyddol ynglŷn â chydymffurfio â'r polisi diogelu corfforaethol cyffredinol. Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Ysgolion a Dysgu hefyd yn cael golwg ar archwiliad blynyddol SAFE Plant ac Ysgolion'<br>• Mae'r polisi diogelu corfforaethol hefyd yn datgan, 'Bydd Grŵp Diogelu'r Awdurdod Cyfan yn llunio adroddiad o leiaf bob blwyddyn ar gyfer Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Y Cabinet a Chraffu. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad diogelu'r Cyngor. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gynghorwyr graffu ar waith Grŵp Diogelu'r Awdurdod Cyfan a'i herio.' Hyd yma, ni luniodd Grŵp Diogelu'r Awdurdod Cyfan adroddiad blynyddol o'r fath, er bod y Cyngor wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu mynd ag adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ym mis Tachwedd 2021.<br>• Nid yw diogelu corfforaethol wedi ymddangos ar agenda unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (ers cyhoeddi ein hadroddiad ym mis Mai 2019). Fodd bynnag, nodwn fod y Polisi Diogelu Corfforaethol yn nodi, 'Rôl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol yw adolygu a chraffu ar benderfyniadau a chreu adroddiadau neu argymhellion sy'n gysylltiedig â rhyddhau unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor. Y rôl yw | | |

| Cynigion ar gyfer gwella o adroddiad Archwilio Cymru Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol (Mai 2019) | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor o'i gymharu â'r cynigion (ym mis Medi 2021) | Cyfleoedd i'r Cyngor eu hystyried | Cyhoeddi rhagor o gynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | herio'r Cyngor yn adeiladol ynglŷn â'i weithgarwch diogelu mewn ffordd ddiduedd ac annibynnol'.<br>• Roedd Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor i fod i gael ei adolygu ym mis Tachwedd 2020, ond nid yw hyn wedi'i wneud. | | |
| **C2**<br>Dylai'r Cyngor esbonio swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Aelod Arweiniol a'r Aelod Eiriolwr dros Ddiogelu yn y polisi a datgan hynny. | **Bodlonwyd y cynnig**<br>• Mae'r fersiwn gyfredol o'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Aelod Arweiniol a'r Aelod Eiriolwr dros Ddiogelu | Dylai'r Cyngor werthuso a yw swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Aelod Arweiniol a'r Aelod Eiriolwr dros Ddiogelu yn diwallu ei anghenion yn effeithiol, ac os caiff y swyddogaethau eu cyfleu'n ddigonol. | |
| **C3**<br>Mae angen i'r Cyngor ennyn cyhoeddusrwydd i'r polisi diogelu | **Bodlonwyd y cynnig yn rhannol**<br>• Mae lle i'r Cyngor wella'r trefniadau ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r Polisi Diogelu Corfforaethol. Nid y fersiwn gyfredol yw'r fersiwn o'r Polisi Diogelu Corfforaethol ar wefan y Cyngor. | Gellid gwella'r wybodaeth ar wefan gyhoeddus y Cyngor ac ar ei system mewnrwyd fewnol mewn cysylltiad â diogelu drwy sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol | Nid yw'r cynnig gwreiddiol wedi'i fodloni'n llawn. Mae angen i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau ei fod yn bodloni'r cynnig hwn. |

| Cynigion ar gyfer gwella o adroddiad Archwilio Cymru Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol (Mai 2019) | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor o’i gymharu â’r cynigion (ym mis Medi 2021) | Cyfleoedd i'r Cyngor eu hystyried | Cyhoeddi rhagor o gynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| corfforaethol newydd i sicrhau bod staff, cynghorwyr a rhanddeiliaid ehangach yn ymwybodol ohono a sut y dylid ei weithredu. | • Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Polisi Diogelu Corfforaethol ar fewnrwyd fewnol y Cyngor.<br>• Mae'r Cynllun Gweithredu a luniwyd gan y Cyngor (mewn ymateb i'n hadroddiad ym mis Mai 2019), yn nodi mewn cysylltiad â'r cynnig hwn, 'Gwybodaeth i'w chyfuno â chardiau newydd neu gardiau .vcf[2] y cytunwyd arnynt yn y Grŵp Diogelu'r Awdurdod Cyfan’. Fodd bynnag, nid yw'r cardiau'n cyfeirio at y Polisi Diogelu Corfforaethol. Hefyd, mae'r cynnig ar gyfer gwella yn cyfeirio at roi cyhoeddusrwydd i'r Polisi Diogelu Corfforaethol ar gyfer rhanddeiliaid a chynghorwyr ehangach. Roedd y cardiau hyn ar gyfer staff yn unig. | am ddiogelu, gan gynnwys yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar gael mewn un lle (mae gwybodaeth ar gael ar y rhyngrwyd a'r fewnrwyd ar hyn o bryd ond caiff ei chadw'n anghyfartal). | |
| **C4** | **Bodlonwyd y cynnig yn rhannol** | Dylai'r Cyngor sicrhau ei hun bod pob cyfarwyddiaeth yn ystyried risgiau diogelu | Nid yw'r cynnig gwreiddiol wedi'i fodloni'n llawn. Mae angen i'r Cyngor gymryd |

[2] Ystyr hwn yw ‘ffeil gyswllt rithwir' sy'n galluogi defnyddwyr i’w hychwanegu fel cyswllt ar ffôn symudol.

| Cynigion ar gyfer gwella o adroddiad Archwilio Cymru Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol (Mai 2019) | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor o'i gymharu â'r cynigion (ym mis Medi 2021) | Cyfleoedd i'r Cyngor eu hystyried | Cyhoeddi rhagor o gynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Dylai'r Cyngor sicrhau bod risgiau diogelu yn cael eu hystyried yn briodol fel rhan o'r symudiad at sefydlu cofrestri risg ar lefel cyfarwyddiaethau. | • Mae diogelu yn ymddangos ar gofrestr risg gorfforaethol y Cyngor, ac mae'n ymddangos ar gofrestri risg y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gyfarwyddiaeth Addysg. Nid yw'n ymddangos ar unrhyw gofrestri risg cyfarwyddiaethau eraill ac nid oes tystiolaeth bod y Cyngor wedi ystyried a ddylai ymddangos arnynt. Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun bod risgiau diogelu yn cael eu hystyried yn briodol gan bob cyfarwyddiaeth. | yn llawn a, lle bo'n briodol, sicrhau bod cofrestri risg cyfarwyddiaethau yn nodi'r ystyriaeth honno. | camau i sicrhau ei fod yn bodloni'r cynnig hwn. |
| **C5**<br>Dylai'r Cyngor gofnodi'n ffurfiol a chadw, ar y system adnoddau dynol gorfforaethol, yr asesiad risg a gynhelir wrth benderfynu a oes gofyn gwneud gwiriad GDG ar gyfer rôl benodol (ac ar ba lefel). | **Bodlonwyd y cynnig yn rhannol a nodwyd materion ehangach**<br>• Mae'r Cyngor wedi dehongli'r cynnig hwn ar gyfer gwella fel un sy'n ymwneud â swyddi 'newydd'. Ers 1 Hydref 2020, mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad risg ar gyfer swyddi 'newydd' ac yn cadw'r cofnod hwn ar system gorfforaethol.<br>• Credwn fod y dehongliad cul hwn o'r cynnig ar gyfer gwella yn gyfle a gollwyd gan nad yw'r Cyngor yn dilyn y broses hon ar gyfer pob swydd wag sy'n codi. O dan y dull hwn, ni fydd unrhyw rôl swydd bresennol byth yn cael asesiad risg ffurfiol sy'n cael ei gofnodi a'i gadw ar y system Adnoddau Dynol corfforaethol. | | Wrth recriwtio i bob swydd wag, dylai'r Cyngor gofnodi a chadw'n ffurfiol, ar y system gorfforaethol, yr asesiad risg a gynhelir wrth benderfynu a oes gofyn gwneud gwiriad GDG ar gyfer rôl benodol (ac ar ba lefel). |

| Cynigion ar gyfer gwella o adroddiad Archwilio Cymru Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol (Mai 2019) | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor o'i gymharu â'r cynigion (ym mis Medi 2021) | Cyfleoedd i'r Cyngor eu hystyried | Cyhoeddi rhagor o gynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **C6**<br>Dylai'r Cyngor gadw'r holl gofnodion am wirfoddolwyr ar y system adnoddau dynol gorfforaethol i sicrhau bod ganddo un cofnod recriwtio canolog | **Bodlonwyd y cynnig ond nodwyd materion ehangach**<br>• Mae'r Cyngor bellach yn cofnodi'r holl gofnodion am wirfoddolwyr ar y system Adnoddau Dynol corfforaethol.<br>• Nid yw'r Cyngor yn cofnodi ac yn cadw'n ffurfiol, ar y system Adnoddau Dynol corfforaethol, yr asesiad risg a gynhelir wrth benderfynu a oes gofyn gwneud gwiriad GDG ar gyfer rôl wirfoddoli (ac ar ba lefel). | | Wrth recriwtio gwirfoddolwyr, dylai'r Cyngor gofnodi a chadw, ar y system gorfforaethol, yr asesiad risg a gynhelir wrth benderfynu a oes gofyn gwneud gwiriad GDG ar gyfer rôl wirfoddoli (ac ar ba lefel). |
| **C7**<br>Dylai'r Cyngor werthuso a fyddai llunio polisi gwirfoddoli corfforaethol yn cryfhau ei drefniadau llywodraethu ar gyfer diogelu. | **Bodlonwyd y cynnig**<br>• Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu Polisi Gwirfoddoli corfforaethol (dyddiedig Ionawr 2020). | Dylai'r Cyngor ystyried sut y mae'n sicrhau bod ei reolwyr yn ymwybodol o'r Polisi Gwirfoddoli a'u bod yn glynu wrtho. | |

| Cynigion ar gyfer gwella o adroddiad Archwilio Cymru Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol (Mai 2019) | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor o’i gymharu â’r cynigion (ym mis Medi 2021) | Cyfleoedd i'r Cyngor eu hystyried | Cyhoeddi rhagor o gynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **C8**<br><br>Dylai'r Cyngor sefydlu system gadarn fel y gall fod yn sicr bod pawb a ddylai fod wedi cwblhau hyfforddiant diogelu wedi'i gael. | **Bodlonwyd y cynnig**<br>• Erbyn hyn, mae gan y Cyngor system i gofnodi'n effeithiol pa staff sydd wedi cael hyfforddiant diogelu gorfodol a'r rhai nad ydynt wedi cael hwnnw. Mae Grŵp Diogelu'r Awdurdod Cyfan yn monitro cydymffurfiaeth. | Dylai'r Cyngor ystyried a oes angen goruchwyliaeth gorfforaethol ar lefelau eraill o hyfforddiant diogelu sy'n ofynnol i staff a pha un a ydynt wedi'i gael. | |
| **C9**<br>Dylai'r Cyngor adolygu arferion caffael i sicrhau bod materion diogelu yn cael eu hystyried a'u rheoli'n llawn pan fo trydydd partïon yn cyflenwi gwasanaethau ar ran y Cyngor. | **Ni fodlonwyd y cynnig**<br>• Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth gan y Cyngor i ddangos ei fod wedi adolygu ei arferion caffael i sicrhau bod materion diogelu yn cael eu hystyried a'u rheoli'n llawn pan fo trydydd partïon yn cyflenwi gwasanaethau ar ran y Cyngor. | | Ni fodlonwyd y cynnig gwreiddiol. Mae angen i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau ei fod yn bodloni'r cynnig hwn. |

| Cynigion ar gyfer gwella o adroddiad Archwilio Cymru Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol (Mai 2019) | Asesiad Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor o'i gymharu â'r cynigion (ym mis Medi 2021) | Cyfleoedd i'r Cyngor eu hystyried | Cyhoeddi rhagor o gynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| **C10**<br>Dylai'r Cyngor benderfynu a fyddai sefydlu mesurau perfformiad penodol ar gyfer y Cyngor o gymorth i'r trefniadau craffu yn eu rôl ac yn rhoi mwy o sicrwydd ar effeithiolrwydd polisi diogelu newydd y Cyngor. | **Ni fodlonwyd y cynnig**<br>• Nid yw'r Cyngor wedi datblygu mesurau perfformiad a fyddai o gymorth i'r trefniadau craffu yn eu rôl ac yn rhoi mwy o sicrwydd ar effeithiolrwydd trefniadau corfforaethol y Cyngor ar gyfer diogelu. Hyd yma, nid yw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, sydd o dan gyfansoddiad y Cyngor yn gyfrifol am ddiogelu corfforaethol, wedi cael unrhyw adroddiad ar ddiogelu.<br>• Ni ddatblygodd Grŵp Diogelu'r Awdurdod Cyfan gyfres o fesurau perfformiad i roi sicrwydd ar effeithiolrwydd Polisi Diogelu'r Cyngor na'i drefniadau diogelu corfforaethol. Mae'r unig fesurau perfformiad a gasglwyd gan y Grŵp Diogelu Awdurdod Cyfan yn ymwneud â chydymffurfio â hyfforddiant diogelu gorfodol. | | Ni fodlonwyd y cynnig gwreiddiol. Mae angen i'r Cyngor gymryd camau i sicrhau ei fod yn bodloni'r cynnig hwn. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.